CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2019:

OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU LLYWODRAETH CYMRU I HYRWYDDO HAWLIAU MENYWOD A CHYDRADDOLDEB RHWNG Y RHYWIAU

WEN Wales Cymru

OXFAM

RHAGAIR

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud rhai camau tuag at ddod yn llywodraeth ffeministaidd ac yn genedl ffeministaidd: o ran gweithredu ymarferol rydym wedi gweld y Prif Weinidog newydd yn cyflawni ei addewid am gabinet cytbwys o ran rhyw. Ac o safbwynt deddfwriaethol, pasiodd Cymru ddeddfwriaeth arloesol yn 2015 i fynd i'r afael â melltith trais yn erbyn menywod a merched.

Ond er gwaethaf deddfwriaeth gadarn a bwriadau da i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau, yn aml mae diffyg cyllid, diffyg strategaeth, a diffyg ymdeimlad o frys i barhau â'r dasg hyd y diwedd. Rydym yn croesawu'r Adolygiad o Gydraddoldeb Rhwng y Rhywiau ond mae'n rhaid iddo arwain at weithredu go iawn, gyda chyllideb digonol ar gael i wneud cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn realiti yng Nghymru.

Mae'r cerdyn sgorio ffeministaidd hwn yn dangos beth y gellid ei wneud nawr i symud Cymru ymlaen ar ei llwybr i gydraddoldeb – ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, trethi a chynrychiolaeth 50:50 a meysydd eraill. Mae Oxfam Cymru a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (RhCM) Cymru bellach yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud penderfyniadau beiddgar i sicrhau bod yr arian ar gael a rhoi'r camau gweithredu ar waith fel bod gennym nid yn unig lywodraeth ffeministaidd ond Cymru ffeministaidd.

Catherine Fookes
Director, WEN Wales

Rachel Cable
Head of Oxfam Cymru

CYFLWYNIAD

Mae'r rhwystrau mae menywod yn eu hwynebu, a'r diffyg cyfleoedd ar eu cyfer, yn deillio o systemau cymhleth wedi'u hen sefydlu o anghydraddoldeb a gwahaniaethu. Felly mae angen ymagwedd gyfannol sy'n rhoi sylw i'r amrywiol ffactorau rhyng-gysylltiedig i wneud cynnydd go iawn tuag at gydraddoldeb.

Roedd deddfwriaeth sylfaenol y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Cymru, Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad newydd 'wneud trefniadau priodol gyda'r bwriad o sicrhau bod ei swyddogaethau'n cael eu cyflawni gyda sylw dyledus i'r egwyddor y dylai pawb gael cyfle cyfartal.'[1]

Mae'r 'dyletswydd i brif ffrydio cydraddoldeb' yn rhoi cyfrifoldeb ar Weinidogion Cymru i adrodd yn flynyddol ar gynnydd Llywodraeth Cymru. Mae nifer o Aelodau'r Cynnydd, gan gynnwys Gweinidogion Llywodraethau olynol Cymru, wedi cymryd y ddyletswydd hon o ddifrif, ac wedi gwneud ymdrechion clodwiw i sicrhau cynnydd tuag at gydraddoldeb, gan gynnwys ar gyfer menywod.

Ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod 2018, cyhoeddodd cyn Brif Weinidog Cymru Carwyn Jones Adolygiad Cyflym o bolisïau rhyw a chydraddoldeb Llywodraeth Cymru. Roedd cylch gorchwyl yr adolygiad yn cynnwys nodi sut i:

- Symud rhyw i flaen y gad o ran gwneud yr holl benderfyniadau;
- Sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau mewn penodiadau cyhoeddus;
- Defnyddio pwerau caffael yn well i hybu cydraddoldeb;
- Sicrhau bod y Cynllun Gweithredu Economaidd newydd a'r Cynllun Cyflogadwyedd yn 'cyflawni ar y rhethreg ynglyn â rhyw';
- Gwneud Cymru 'y man mwyaf diogel i fod yn fenyw yn Ewrop gyfan'.

Mae'r cyhoeddiad, a oedd i'w groesawu, yn darparu meincnod i'w ddefnyddio ar gyfer mesur camau gweithredu diweddar Llywodraeth Cymru, a'u camau yn y dyfodol, i hyrwyddo cydraddoldeb ar gyfer menywod a merched yng Nghymru.

Mae Oxfam Cymru a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (RhCM) Cymru wedi gweithio gyda'i gilydd i gynhyrchu'r Cerdyn Sgorio Ffeministaidd cyntaf hwn fel gwaith dilynol i Faniffesto Menywod 20182. Mae'r Cerdyn Sgorio hwn yn canolbwyntio ar chwe maes sy'n hanfodol ar gyfer cydraddoldeb menywod, ac sydd yn feysydd y mae gan Lywodraeth Cymru bwer ynddynt i wneud gwahaniaeth sylweddol:

- Cyfrifoldebau gofalu;
- Rhoi diwedd ar drais yn erbyn menywod a merched;
- Arweinyddiaeth a chynrychiolaeth gyfartal;
- Cyfrifoldeb byd-eang;
- Swyddi a chyflog cyfartal;
- Trethiant a chyllidebau.

Nid yw'r Cerdyn Sgorio yn ceisio cynnig dadansoddiad cynhwysfawr o bob maes polisi, nac ar yr holl benderfyniadau mae'r llywodraeth bresennol wedi'u gwneud sydd yn effeithio ar fenywod a chydraddoldeb. Yn hytrach na hynny, yn syml, mae'n gipolwg ar berfformiad Llywodraeth Cymru mewn chwe maes sy'n peri pryder allweddol i fenywod, dros y cyfnod rhwng etholiad y 5ed Cynulliad ym mis Mai 2016 hyd at Chwefror 2019. Mae'n alwad i Lywodraeth Cymru weithredu i archwilio lle mae wedi gwneud yn dda a lle mae angen mwy o waith i gyflawni cydraddoldeb ar gyfer menywod a merched yng Nghymru.

CERDYN SGORIO FFEMINISTAIDD 2019

OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU LLYWODRAETH CYMRU I HYRWYDDO HAWLIAU MENYWOD A CHYDRADDOLDEB RHWNG Y RHYWIAU

Gwyrdd = **Cynnydd sylweddol**

Melyn = **Rhywfaint o gynnydd**

Coch = **Ychydig o gynnydd**

MENYWOD A CHYFRIFOLDEBAU GOFAL

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwelliannau cynyddol, ond mae angen mwy o waith er enghraifft, ymestyn y cynnig Gofal Plant i blant iau a rhieni nad ydynt yn gweithio a sicrhau y gall gofalwyr gael mynediad i seibiannau ac egwyliau rhesymol.

RHOI DIWEDD AR DRAIS YN ERBYN MENYWOD A MERCHED

Roedd y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn ddeddfwriaeth arloesol, ond araf fu'r gweithredu. Mae darpariaeth gwasanaethau yn anghyson iawn, ac mae angen gweithredu ar unwaith i glustnodi cyllid cynaliadwy.

MENYWOD AC ARWEINYDDIAETH A CHYNRYCHIOLAETH GYFARTAL

Mae Llywodraeth Cymru yn eiriolwr cryf cynyddol dros arweinyddiaeth menywod, gan ddangos hyn drwy, er enghraifft, ei chabinet cytbwys o ran y rhywiau. Fodd bynnag, mae angen deddfwriaeth i sicrhau cynrychiolaeth 50:50 yn y Cynulliad, ac yn enwedig ar lefel llywodraeth leol.

CYFRIFOLDEB BYD-EANG A MENYWOD

Mae Cymru yn parhau i ddangos arweinyddiaeth trwy ei dull Cenedl o Noddfa. Mae angen gwneud rhagor o gynnydd i gadarnhau'r cyfrifoldeb byd-eang sydd wrth wraidd strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru, ac i sicrhau bod Cymru yn cyflawni targedau newid hinsawdd allweddol – her fyd-eang sy'n effeithio ar fenywod yn anghymesur.

SWYDDI A CHYFLOG CYFARTAL AR GYFER MENYWOD

Mae menywod yn dal i fod â'r mwyafrif o swyddi â chyflog isel yng Nghymru, ac mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn parhau. Dylai Llywodraeth Cymru osod targedau uchelgeisiol i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a dyfeisio fframwaith ar gyfer monitro gwaith gweddus i fenywod.

EFFAITH TRETHIANT A CHYLLIDEBAU AR FENYWOD

Nid trethiant niwtral o ran y rhywiau yw'r dull cywir – mae angen ymagwedd gadarnhaol ar sail rhyw. Dylai Llywodraeth Cymru wella ei phroses Asesu Effaith ar Gydraddoldeb, yn ogystal â chyflwyno cyllidebu ar sail rhyw fel blaenoriaeth.

MENYWOD A CHYFRIFOLDEBAU GOFALU

SGÔR: MELYN

Yn ogystal â'u cyfrifoldeb mawr ac anghyfartal ar gyfer gwaith domestig ac yn aml eu bod yn brif ddarparwyr gofal ar gyfer eu plant, mae menywod hefyd yn fwy tebygol na dynion i ddarparu gofal di-dâl i aelodau eraill o'r teulu. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud dechrau da tuag at sicrhau dosbarthiad mwy cyfartal o ofal a chymorth ond mae ffordd hir i fynd.

Gofal plant

'Mae cael plant yn cael effaith gydol oes ar gyfraddau cyflogaeth menywod, cyfleoedd gyrfa ac incwm. Mae cyfran syfrdanol o ferched nad ydynt naill ai'n mynd yn ôl i'r gwaith ar ôl cael plant, neu'n dychwelyd i swyddi rhan-amser, â chyflog is i gyd-fynd â gofal plant. Ni theimlir yr un effaith gan dadau.' Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y Cynulliad Cenedlaethol (Gorffennaf 2018)[3]

Mae'r ystadegau yn tanlinellu'r realiti hwn: y gyfradd cyflogaeth ar gyfer menywod â phlant dibynnol yng Nghymru yw 75%, ond 91% ar gyfer dynion â phlant dibynnol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd gofal plant ac wedi ymrwymo i ddarparu 30 awr yr wythnos o ofal plant ac addysg gynnar a ariennir gan y llywodraeth i rieni sy'n gweithio â phlant tair neu bedair blwydd oed, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

Bydd y cynnig ar gael ledled y wlad erbyn 2020, ond mae problemau tebygol wedi'u nodi.

Mae argaeledd gofal plant yn amrywio ledled Cymru - yn nodweddiadol, mae capasiti uwch mewn ardaloedd trefol a chefnog, is mewn ardaloedd gwledig a difreintiedig.[4] Gallai problemau capasiti o'r fath gyfyngu ar gyrhaeddiad y cynnig newydd fel y maent wedi'i wneud ar gyfer y cynllun Dechrau'n Deg: Mae 44% o blant o gefndiroedd difreintiedig yn byw y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg, yn ôl Comisiynydd Plant Cymru.

Gall rhai grwpiau, fel menywod anabl a menywod duon, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig (BAME), fod angen cymorth ychwanegol i fanteisio ar ofal plant priodol.[5]

Mae arbenigwyr yn dweud bod ei gynnig o 3 mlwydd oed yn rhy hwyr i gefnogi llawer o ferched yn ôl i'r gwaith, gan ei fod yn ei gyfyng i rieni sy'n gweithio 16 awr neu fwy yr wythnos. Mae'r Comisiynydd Plant wedi galw i'r cynnig gael ei ymestyn i blant rhieni nad ydynt yn gweithio, gan bwysleisio manteision hirdymor darpariaeth y blynyddoedd cynnar o ansawdd i blant o'r cefndiroedd tlotaf.

I wneud ei gynllun gofal plant yn wasanaeth seren aur dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Cynnig gofal plant fforddiadwy a hygyrch i bawb o chwe mis, gan gynnwys y rhieni nad ydynt yn gweithio;
- Darparu arian i sicrhau y gall plant anabl fanteisio ar ofal plant;
- Cefnogi grwpiau fel menywod anabl a menywod duon, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig i fanteisio ar ofal plant priodol;
- Darparu canolfannau gofal plant ar gyfer teuluoedd sy'n ceisio lloches;
- Sicrhau bod amodau chyflogau darparwyr gofal plant yn dda a bod ganddynt fynediad at hyfforddiant;
- Caniatáu gwarchodwyr plant cofrestredig i ofalu am eu perthnasau a derbyn y cynnig;
- Caniatáu i fenywod hyn, sy'n darparu llawer o ofal plant anffurfiol ar hyn o bryd, i hawlio'r cynnig gofal plant.

Gofal di-dâl

Mae sector o gymdeithas sy'n cyfrannu £8.15bn i economi Cymru bob blwyddyn yn haeddu sylw, cael ei chanmol a'i meithrin gan y llywodraeth - hyd yn oed yn fwy felly pan ystyrir cyfraniad cymdeithasol.

Mae 370,000 o bobl o leiaf - sy'n cyfateb i 12% o'r boblogaeth - yn darparu 96% o ofal mewn cymunedau ledled Cymru. Mae'r amcangyfrif swyddogol o £8.15bn o ran gwerth eu gwaith gofalu di-dâl yn fwy na gwerth gofal ffurfiol a ddarperir gan y GIG a llywodraeth leol.[6]

Mae menywod yn darparu cyfran uwch o ofal di-dâl na dynion. Mae bwlch amlwg rhwng y rhywiau i'w weld ymhlith gofalwyr 25-49 a 50-64-mlwydd oed - pan fydd dyletswyddau gofalu yn fwyaf tebygol o gael effaith negyddol ar opsiynau cyflogaeth ac enillion. Mae lefelau gofal di-dâl ar eu huchaf mewn hen ardaloedd diwydiannol.

Fe wnaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2016, gynnig hawliau gwell i ofalwyr. Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru tair blaenoriaeth genedlaethol: 1 Cefnogi bywyd ochr yn ochr â gofalu – Rhaid i bob gofalwr gael seibiant rhesymol o'u rôl gofalu; 2 Nodi a chydnabod cymorth i ofalwyr, gan gynnwys sicrhau y gallent fanteisio ar gymorth angenrheidiol; 3 Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth.

Nodwyd yr hawl i gael seibiant yn flaenoriaeth lle mae gweithredu yn wirioneddol ddiffygiol. Mae Carers Wales yn galw am *'arian a'r dewis o wasanaethau o ansawdd i alluogi gofalwyr i gymryd y seibiannau maen nhw eu hangen'*.

Ym mis Tachwedd 2018 cynhaliodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwarae y Cynulliad Cenedlaethol Iechyd ymchwiliad i effaith y Ddeddf ar ofalwyr. Dywedodd Comisiynydd Pobl Hyn Cymru wrth yr ymchwiliad nad yw systemau cyfredol ar gyfer monitro, mesur a gwerthuso lefelau seibiant yn addas i'r diben *'gan eu bod yn ymwneud â diffiniad cul ac unochrog o seibiant'*. Gan nodi nad yw *'blaenoriaethau cenedlaethol mor sylweddol â strategaeth genedlaethol ac nid yw'r blaenoriaethau hyn yn cynnwys camau gweithredu penodol'* roedd hi'n cwestiynu a yw'r blaenoriaethau yn ddigon cryf i sicrhau y diwellir anghenion gofalwyr.

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Erbyn 2020, ddyrannu cyllid i roi dewis i ofalwyr o wasanaethau seibiant o ansawdd.

'Os ein gofalwyr yn cwympo, mae ein gwasanaethau cyhoeddus yn cwympo'

- Comisiynydd Pobl Hyn

RHOI DIWEDD AR DRAIS YN ERBYN MENYWOD A MERCHED

SGÔR: COCH

Yn dilyn pasio Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 cododd gobeithion am gamau llym a phendant i fynd i'r afael â melltith trais yn erbyn menywod a merched. Ond araf fu'r gweithredu, mae cynlluniau a strategaethau wedi cael eu datblygu'n hwyr, ac fe wnaeth y penderfyniad cychwynnol i wneud swydd yr Ymgynghorydd Cenedlaethol statudol yn un rhan-amser ddwysáu'r oedi.

Cyflwynwyd Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ym mis Tachwedd 2016 fel dogfen strategol o lefel uchel, ond heb gynllun gweithredu manwl oedd yn cyd-fynd gyda chyfrifoldebau ac amserlenni ar gyfer cyflawni.

Ym mis Awst 2017 fe wnaeth Swyddfa Archwilio Cymru nodi'r heriau ariannu mae gweithrediad y Ddeddf yn eu hwynebu: *"Mae'r llu o ffrydiau ariannu a'u natur tymor byr yn ei gwneud hi'n anodd i gyrff cyhoeddus ddatblygu dull strategol hirdymor i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.'*[7]

Yn y tair blynedd wedi pasio'r ddeddfwriaeth (2016-2018), mae o leiaf 31 o fenywod yng Nghymru wedi cael eu lladd drwy drais angheuol gan ddynion, o'u cymharu â 14 o fenywod a laddwyd rhwng 2013-2015[8]. Adroddodd yr Ymgynghorwyr Cenedlaethol ar ddiwedd 2018 bod *'y darlun yn gymhleth, mae'r ddarpariaeth o wasanaethau yn anghyson ledled Cymru ac mae'r heriau'n sylweddol... Fel cam cyntaf i ymateb i'r heriau hyn, mae'n hanfodol bod cydgysylltu, cydweithio ac integreiddio gwell o fewn ac ar draws Llywodraeth Cymru...'*[9]

Mae cyllid cynaliadwy hirdymor ar gyfer y sector arbenigol yn parhau i fod yn broblem fawr.[10] Nododd Adroddiad Cyflwr y Sector 2018 gan Cymorth i Ferched Cymru fod darparu cyllid cynaliadwy hirdymor ar lawr gwlad wedi bod yn araf, er bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau gwasanaethau arbenigol a ariennir yn gynaliadwy.

Yn y cyfamser bu cynnydd mewn atgyfeiriadau i wasanaethau arbenigol cymunedol, mae rhestrau aros ar gyfer cymorth yn parhau i fodoli, ac ni lwyddwyd i ddarparu ar gyfer o leiaf 431 o oroeswyr oedd angen cymorth lloches gan y gwasanaeth oherwydd nad oedd digon o adnoddau a chapasiti y llynedd. Mae gwasanaethau arbenigol yn adrodd bod '*cynnydd cyfatebol mewn goroeswyr sy'n cael eu heffeithio gan anfanteision lluosog ac anghenion cymorth mwy cymhleth*'.[11]

Hefyd, fe wnaeth Cymorth i Ferched Cymru dynnu sylw at broblem gynyddol arall: mae polisïau llymder Llywodraeth y DU yn achosi hinsawdd hynod heriol i oroeswyr - yn enwedig goroeswyr sy'n anabl, yn ymfudwyr a goroeswyr BAME - ac i wasanaethau arbenigol, a ddefnyddir yn bennaf gan fenywod a phlant. Maent yn dadlau bod '*cyd-destun strategol a chyfreithiol clir ar gyfer ariannu gwasanaethau arbenigol yn gynaliadwy yng Nghymru*' i wrthsefyll y mesurau llymder gwaethaf.

Ym mis Tachwedd 2018 cyhoeddodd y Prif Weinidog bryd hynny, Carwyn Jones, adolygiad dan arweiniad arbenigwr i ddarpariaeth lloches a gwasanaethau trais rhywiol '*i drawsnewid y cymorth a ddarperir i ddioddefwyr ymosodiadau rhywiol a cham-drin domestig*' a '*datblygu model a wnaed yng Nghymru sy'n darparu cymorth o safon flaenllaw*'[12] i ddioddefwyr trais rhywiol a cham-drin domestig.

Byddem yn disgwyl i'r adolygiad ymgysylltu'n llawn gyda'r holl arbenigwyr sy'n darparu'r gwasanaethau hyn mewn cymunedau lleol ledled Cymru ac i roi profiadau goroeswyr a'u hargymhellion wrth wraidd y model 'gwnaed yng Nghymru' arfaethedig.[13]

Yn 2018 cyhoeddodd y Prif Weinidog hefyd[14] fod Cymru wedi cadarnhau Confensiwn Istanbul[15], sy'n disgwyl i wladwriaeth ddiwallu set o safonau gofynnol[16] ar gyfer mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod. Honnodd Llywodraeth eu bod '*eisoes wedi bodloni holl ymrwymiadau Confensiwn Istanbul o fewn ein pwerau*'. P'un a yw hyn yn wir ai peidio, dim ond gwladwriaethau sofran all gadarnhau'r confensiwn; nid yw Cymru wedi bod drwy'r broses o asesu cydymffurfiaeth; ac nid yw wedi cyhoeddi adroddiad i ddangos sut maen nhw'n cyflawni'r confensiwn, fel sy'n ofynnol er mwyn cadarnhau.[17]

Mae **cam-drin ar-lein** yn estyniad ac yn barhad o drais ar sail rhyw. Fodd bynnag, nid yw cynllun gweithredu a mentrau ar-lein Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ryw ac nid yw'n cydnabod effaith anghymesur cam-drin ar-lein ar fenywod ifanc a merched. Gan nodi y gellir cymhwyso erthyglau yng Nghonfensiwn Istanbul, fel y rhai ar drais seicolegol, stelcian ac aflonyddu rhywiol, i drais ar-lein, mae Cymorth i Ferched Cymru wedi annod Llywodraeth Cymru i ymgorffori arfer da'r Confensiwn i'w ymateb i gam-drin ar-lein.[18]

Mae aflonyddu rhywiol yn gyffredin yn ein gweithleoedd a sefydliadau cyhoeddus, gan gynnwys Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Canfu TUC fod dros hanner y menywod a holwyd wedi profi aflonyddu rhywiol yn y gweithle.[19]

Mae **caethwasiaeth fodern** yn bodoli yng Nghymru ac yn cynyddu. Dangosodd ffigurau swyddogol a ryddhawyd ym mis Awst 2018 gynnydd o 56% mewn achosion o gaethwasiaeth fodern yng Nghymru o 2016-2017, er bod nifer y dioddefwyr hysbys yn gymharol isel.[20] Ym mis Mawrth 2017 lansiodd Llywodraeth Cymru God Ymarfer newydd ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnig arweiniad i alluogi staff i nodi ac asesu pa feysydd gwario sydd mewn perygl uwch o gaethwasiaeth fodern a cham-drin hawliau dynol. Yn yr achosion hyn **menywod mudol** sydd mewn mwy o berygl o drais ac ecsbloetiaeth. Mae Cymorth i Ferched Cymru yn pryderu am y perygl i fenywod y gwrthodir eu ceisiadau am loches. Dywedodd y rhan fwyaf o'r menywod a gafodd eu cyfweld gan Bawso eu bod wedi dioddef rhyw fath o natur fregus cyn profi caethwasiaeth fodern.[21]

Hefyd, mae enghreifftiau sy'n achosi pryder o landlordiaid yn hysbysebu am ffafrau rhywiol - 'rhyw am rent' - yn gyfnewid am lety yng Nghymru.[22] Canfu Shelter Cymru y gofynnwyd i 3% o denantiaid preifat sy'n fenywod (amcangyfrif o 6,900 o fenywod) yng Nghymru am 'ryw am rent' yn y pum mlynedd diwethaf.[23] Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi diwedd ar 'ryw am rent' yng Nghymru drwy ddiwygio'r Cod Ymarfer ar gyfer landlordiaid ac rydym yn galw am weithredu i sicrhau bod y Cod hwn yn cael ei orfodi yn effeithiol fel bod gan ferched fynediad diogel a chyfartal at dai.[24]

I gyflawni ei addewid o fodel a wnaed yng Nghymru â safonau blaenllaw o ran cymorth dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Erbyn 2020 darparu digon o gyllid cynaliadwy wedi'i glustnodi ar gyfer yr hirdymor i wasanaethau arbenigol, gan gynnwys i oroeswyr sydd wedi'u heffeithio gan anfanteision lluosog ac anghenion mwy cymhleth;
- O fewn blwyddyn cyhoeddi adroddiad yn unol â gweithdrefnau Istanbul Confensiwn sy'n dangos sut maen nhw'n cyflawni rhwymedigaethau'r Confensiwn;
- Sicrhau darpariaeth cymorth ac eiriolaeth drwy'r llysoedd teulu ar gyfer goroeswyr cam-drin, a darparu cyswllt plant diogel ar gyfer plant wedi eu heffeithio gan drais yn erbyn menywod.
- Erbyn diwedd 2019 sicrhau bod cyllid digonol ar gael i gefnogi menywod anabl
- Rhaid i'r polisi Urddas a Pharch sydd ar waith yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru gynnwys:
  - Cyfres glir o sancsiynau ar gyfer y rhai sy'n torri'r polisi
  - Rhaid caniatáu cwynion sy'n dyddio'n ôl dros 12 mis
  - Rhaid i'r rhai sy'n delio ag achosion aflonyddu rhywiol feddu ar yr arbenigedd a'r profiad i ymdrin â nhw
- Sicrhau bod comisiynu'r cymorth ar gyfer goroeswyr caethwasiaeth fodern yn hirdymor ac yn cael ei lywio gan ryw, a bod y gwasanaethau sy'n gweithio gyda menywod sy'n agored i niwed oherwydd trawma, anabledd neu anghenion iechyd meddwl yn deall y risgiau a'r arwyddion rhybudd o gaethwasiaeth fodern.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod diwygiadau i'r Cod Ymarfer ar gyfer landlordiaid yn rhoi diwedd ar 'ryw am rent' yng Nghymru

'Bydd un o bob tair o fenywod yng Nghymru yn dioddef trais corfforol neu rywiol ar ryw adeg yn eu bywydau'

- Maniffesto RhCM Cymru

MENYWOD AC ARWEINYDDIAETH A CHYNRYCHIOLAETH GYFARTAL

GYFFREDINOL SGÔR: MELYN

CYNULLIAD: GWYRDD

LLYWODRAETH LEOL: COCH

Ar rai mesurau mae Cymru eisoes yn arweinydd o ran cynrychiolaeth wleidyddol, ond erys bylchau difrifol rhwng y rhywiau, yn arbennig ar lefel llywodraeth leol. Mae Prif Weinidog newydd Cymru, Mark Drakeford, wedi dangos ei ymrwymiad i arweinyddiaeth menywod drwy gyflawni ar addewid ei ymgyrch i benodi Cabinet â chydbwysedd rhwng y rhywiau. Croesewir hyn yn fawr, ond mae angen gwneud mwy i gyflawni'r nod o Lywodraeth Cymru ffeministaidd.

Mae'r cydbwysedd rhwng y rhywiau ymhlith Aelodau'r Cynulliad, gyda 47% yn fenywod, yn well nag mewn unrhyw gorff seneddol arall yn y DU, ond mae'n bwysig cydnabod nad yw hyn o ganlyniad i bolisi'r llywodraeth.

Mewn cymhariaeth, dim ond 28% o ASau Cymru a 28% o gynghorwyr lleol sydd yn fenywod. Mae Llywydd a Dirprwy Lywydd y Cynulliad yn fenywod, ac mae menywod cadeirio 47% o Bwyllgorau'r Cynulliad. Fodd bynnag, hyd yma, nid oes menyw BAME wedi bod yn Aelod Cynulliad eto.

Yn 2017, argymhellodd panel o arbenigwyr ar ddiwygio'r Cynulliad, a benodwyd gan Lywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y dylid cyflwyno cwota rhwng y rhywiau ar gyfer etholiadau 2021. Os nad yw hynny'n digwydd, meddai'r panel, dylid disgwyl pleidiau gwleidyddol i *'gymryd camau i sicrhau bod eu prosesau dethol ymgeiswyr yn cefnogi ac yn annog ethol senedd gytbwys rhwng y rhywiau ar gyfer Cymru'*.[25]

Roedd hyn yn gyfle i Lywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth, ond nid yw wedi gwneud hynny[26]. Ac nid yw Comisiwn y Cynulliad wedi gwneud chwaith, sydd wedi gosod deddfwriaeth i roi rhai o argymhellion eraill y panel arbenigol ar waith. Byddai deddfwriaeth o'r fath yn y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i gael mwyafrif uwch o 40 o Aelodau'r Cynulliad ac mae'r Llywydd o'r farn bod angen gwaith pellach i ddatblygu consensws gwleidyddol o blaid gofyniad cyfreithiol ar gyfer cwotâu.[27]

Mae **Llywodraeth leol** yn parhau i fod yn golofn adweithiol o anghydraddoldeb. Mae'r gyfran o fenywod sy'n cystadlu ac yn cael eu hethol i lywodraeth leol yn parhau i fod yn syfrdanol o isel. 28% o gynghorwyr lleol, pedwar o'r 22 arweinwyr cyngor (18%) a 27% o aelodau Cabinet Cyngor yn unig sy'n fenywod. Mae dau Gabinet awdurdod lleol yn 100% o ddynion. Ar y gyfradd newid hyd yn hyn, mae cydbwysedd rhwng y rhywiau mewn cynghorau yng Nghymru yn annhebygol cyn 2073.

Ymddengys nad yw rhaglen amrywiaeth mewn democratiaeth Llywodraeth Cymru (2014-2017) wedi cael llawer o effaith: 30% yn unig o'r holl ymgeiswyr yn etholiadau cyngor sir 2017 oedd yn fenywod - ychydig yn uwch nag yn 2012 - ac roedd 33% o wardiau lle nad oedd unrhyw ymgeiswyr benywaidd o gwbl.[28]

Gellir dadlau bod sicrhau cydbwysedd ymhlith ymgeiswyr yn ddyletswydd ar y pleidiau gwleidyddol. Ond mae hynny'n anwybyddu'r ffaith bod nifer uchel o gynghorwyr, mwy na 25% o bosibl, yn eistedd fel aelodau annibynnol. Mae trawsnewid awdurdodau lleol er mwyn iddynt ddod yn fwy cynrychioliadol o gymdeithas yn her fawr sydd angen sylw cynnar gan Lywodraeth Cymru.

Mae menywod hefyd wedi'u tan-gynrychioli mewn rolau uwch yn y sector cyhoeddus, ond bu cynnydd. Mae tua 60% o brif weithredwyr byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG, a 60% o benaethiaid, yn fenywod, yn ogystal â'r pedwar Comisiynydd a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn 2017, roedd 34% o aelodau bwrdd cyrff mawr a noddir gan Lywodraeth Cymru yn fenywod.[29] Mae camau Llywodraeth Cymru i ganoli penodiadau cyhoeddus, gyda ffocws ar gysondeb ac amrywiaeth, i'w croesawu.

Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Erbyn 2021 sicrhau Cynulliad Cenedlaethol Cymru sydd yn 50:50, gan gynnwys mwy o gynrychiolaeth o fenywod BME, LGBTIQ+, anabl a menywod dosbarth gweithiol
- Cyflwyno deddfwriaeth fel yr argymhellwyd gan y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, gan gynnwys:
  - Erbyn 2021, integreiddio cwotâu rhywedd i'r system etholiadol fel bod rhaid i'r holl bleidiau gwleidyddol enwebu o leiaf 50% o ymgeiswyr benywaidd
  - Rhannu swydd
- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gasglu a chyhoeddi data amrywiaeth gan yr holl ymgeiswyr;
- Ymrwymo i sefydlu Cronfa mynediad at swydd etholedig mewn pryd ar gyfer etholiadau 2021 i sicrhau bod menywod anabl, menywod BME a'r rhai o'r holl nodweddion gwarchodedig yn gallu cael mynediad i swyddfa wleidyddol;
- Erbyn 2020 rhoi cynllun gweithredu ar waith i gynyddu cyfranogiad menywod BAME mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddol, gan gynnwys cymorth parhaus ar gyfer rhaglen fentora RhCM Cymru a rhaglenni mentora eraill;
- Adolygu'r broses penodiadau cyhoeddus er mwyn sicrhau nad yw'n gosod menywod dan anfantais a'i fod yn gallu cyflawni penodiadau amrywiol, gan gynnwys cydbwysedd 50:50 rhwng y rhywiau ar fyrddau cyhoeddus.

'Daethom i'r casgliad y byddai ymyriadau deddfwriaethol - fel cwotâu rhyw - [...] a galluogi ymgeiswyr i sefyll am etholiad ar sail trefniadau rhannu swydd, yn cefnogi ac yn annog ethol Cynulliad amrywiol, o ran rhyw a nodweddion amrywiaeth ehangach.'

– Panel Arbenigol y Cynulliad Cenedlaethol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

CYFRIFOLDEB BYD-EANG A MENYWOD

SGÔR GYFFREDINOL: MELYN

Mae Cymru yn anelu at fod yn genedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang. Mae hwn yn un o'r saith nod wedi'u hymgorffori yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru weithio tuag at Gymru sydd *'yn genedl sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried p'un a yw hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at les byd-eang.'*[30] Yn yr adran hon rydym yn edrych ar dri o'r meysydd lle gellir mesur cynnydd tuag at y nod hwn, pob un o'r pwys mwyaf i fenywod.

Ceiswyr lloches a ffoaduriaid

SGÔR: GWYRDD

Cefnogir cais Llywodraeth Cymru i fod yn arweinydd yn y DU o ran darpariaeth ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches gan bolisïau a chamau gweithredu. Er bod Llywodraeth y DU yn rheoli polisi lloches a mudo, mae gweinyddiaethau olynol Cymru wedi cefnogi integreiddio ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid o'r eiliad maen nhw'n cyrraedd yng Nghymru, gan gynnwys mynediad at ofal iechyd am ddim.

Mae'r dull rhagweithiol i ailsefydlu ffoaduriaid o Syria, ochr yn ochr â chymunedau a phob un o'r 22 o awdurdodau lleol, wedi helpu Cymru i groesawu bron i 1,000 o ffoaduriaid o Syria.

Mae Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid wedi cymeradwyo 'Cenedl o Noddfa – Cynllun Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid' newydd Llywodraeth Cymru, a lansiwyd ym mis Ionawr 2019.

Nid yw anghenion penodol menywod bob amser yn cael eu cydnabod yn amlwg, fodd bynnag. Er enghraifft, fel y nodwyd yn gynharach, mae menywod mudol yn wynebu mwy o risg o drais ac ecsbloetiaeth. Gan fod menywod sy'n ceisio lloches ymhlith y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, byddai mwy o sylw i'w hanghenion penodol yn codi safonau hyd yn oed ymhellach.

I atgyfnerthu ei dull cadarnhaol cyffredinol dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Cyflwyno fframwaith monitro a gwerthuso sy'n cynnwys dangosyddion perfformiad sy'n canolbwyntio'n glir ar ryw, mesurau llwyddiant, a strwythur adolygu;
- Sefydlu cronfa i alluogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n profi trais i gael lloches.

Datblygu rhyngwladol

SGÔR: MELYN

Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei bwriad i ddatblygu strategaeth cysylltiadau rhyngwladol newydd, sy'n cynnig cyfle i osod cyfrifoldeb byd-eang wrth wraidd gwaith rhyngwladol yn y dyfodol.

Hyd yma, mae cyfraniad Llywodraeth Cymru at ddatblygu rhyngwladol wedi'i ddarparu drwy ei rhaglen Cymru o Blaid Affrica, sy'n cefnogi prosiectau sydd o fudd i gymunedau yng Nghymru ac yn Affrica. Mae'r rhaglen yn gofyn i ymgeiswyr am grantiau ddangos sut y byddant yn sicrhau bod rhyw yn cael ei ystyried yn y gwaith maen nhw'n ei wneud. Er nad oes data ar gael yn gyhoeddus, mae'n ymddangos bod hyn yn gweithio'n dda yng Nghymru: mae gan y sector gyfran uchel o fenywod mewn rolau arweinyddiaeth, ac mae sefydliadau'n monitro cyfranogiad menywod yn gydwybodol, wedi recriwtio rhagor o fenywod ar eu byrddau ac wedi rhoi polisïau ar waith i helpu menywod i aros mewn gwaith.

Mae'n anoddach asesu'r effaith ar fywydau menywod yn Affrica ond mae'n ymddangos ei fod yn gadarnhaol ac yn gymharol gynhwysol. Mae cyllid Cymru o Blaid Affrica ar gyfer prosiectau yn Uganda yn awgrymu pryder i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar fenywod a merched e.e. darparu padiau misglwyf amldro i ferched yn eu harddegau i'w helpu i aros mewn addysg; cefnogi datblygiad cwricwlwm addysg iechyd rhywiol sy'n briodol i oedran a'r diwylliant. Oherwydd prosiectau fel y rhai mae'r menywod hyn wedi'u cynrychioli'n dda yn gyffredinol, ond efallai bod ganddynt lai o lai o arweinyddiaeth mewn prosiectau cymysg.

Mae cred yn y sector datblygu rhyngwladol bod Cymru'n llusgo ar ôl gwledydd tebyg o ran cyllideb a strategaeth ar gyfer datblygu rhyngwladol, ac nad yw'r nod cyfrifoldeb byd-eang yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cael effaith amlwg eto.

Yn fwyaf difrifol, nid oes unrhyw dystiolaeth ar gael yn gyhoeddus bod cyfrifoldeb byd-eang yn ystyriaeth wrth fasnachu neu wneud penderfyniadau hyrwyddo eraill, neu fod yr effaith ar fenywod yn ystyriaeth mewn penderfyniadau o'r fath.

Mae'r Gweinidog dros Gysylltiadau Rhyngwladol a benodwyd yn ddiweddar yn ymgysylltu â busnesau a mudiadau gwirfoddol dan sylw ar strategaeth newydd. Er nad yw'r broses hon yn ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol, efallai y bydd yn cynnig cyfle i gyflwyno cyfrifoldeb byd-eang ac ystyriaethau rhyw i bolisïau a phrosesau.

Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Cynnal asesiadau hawliau dynol ac asesiadau cydraddoldeb rhwng y rhywiau ar bolisïau masnach;
- Buddsoddi mewn hyfforddiant rhyw ar gyfer staff masnach ryngwladol;
- Ymrwymo cyllid i gynyddu arweinyddiaeth menywod mewn prosiectau a gefnogir gan y rhaglen Cymru o Blaid Affrica.

Newid yn yr hinsawdd

SGÔR: COCH

Mae newid yn yr hinsawdd yn bygwth pawb ar y blaned, ond yn cyflwyno mwy o heriau ar gyfer menywod, sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o dlodion y byd. Mae trychinebau naturiol, sydd yn digwydd yn fwy aml ac yn fwy difrifol oherwydd newid yn yr hinsawdd, yn cael effaith anghymesur ar fenywod. Dylai hyn fod yn sbardun ychwanegol i gyflawni camau gweithredu difrifol ar newid yn yr hinsawdd gan Lywodraeth Cymru.

Mae gan Gymru deddfwriaeth a rheoliadau a allai, o'u dehongli a'u rhoi ar waith yn briodol, wneud cyfraniad gwirioneddol at liniaru'r newid yn yr hinsawdd. Mae dwy Ddeddf yn ganolog i hyn: mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn '*gosod newid yn yr hinsawdd wrth wraidd y Llywodraeth, sy'n gofyn am ddull Llywodraeth gyfan*' ac mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) [31]2016 yn ategu hyn, gan gydnabod pwysigrwydd canolog newid yn yr hinsawdd yn llwyr a rhoi dyletswydd ar Weinidogion i bennu cyllidebau carbon a thargedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon ty gwydr.

Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae'r realiti yn brin o uchelgais. Mae allyriadau nwyon ty gwydr Cymru wedi bod yn codi ers 2009 ac wedi cynyddu o 5% yn 2016. Mae adnoddau naturiol allweddol yn cael eu disbyddu'n gynt nag y gellir eu hail-lenwi, mae amrywiaeth biolegol yn gostwng, ac nid oes unrhyw ecosystemau yng Nghymru gyda'r holl nodweddion sydd eu hangen ar gyfer cydnerthedd.[32] Rhaid aros i weld beth yw effaith cyfyngiadau [33]Polisi Cynllunio Cymru 2018 ar gloddio, echdynnu olew a nwy a ffracio.

Fe wnaeth y Pwyllgor ar Newid yn yr Hinsawdd, corff ymgynghori ar lefel y DU, awgrymu targedau allyriadau dros dro newydd ar gyfer Cymru, gan gynnwys tynnu'n ôl i 27% o'r targed gwreiddiol ar gyfer Cymru o ostyngiad o 40% ar lefelau 1990 erbyn 2020.[34] Awgrymodd y Grwp Cyfeirio Arbenigol i Bwyllgor Newid yn yr Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Cynulliad Cenedlaethol fod y targedau newydd yn '*arddangos diffyg uchelgais ac y gellid ei ddehongli fel gwobr am ddiffyg cynnydd Llywodraeth Cymru hyd yma*'.[35]

Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Sicrhau bod targedau yn adlewyrchu uchelgais deddfwriaeth Cymru ac yn ystyried ymrwymiadau Cytundeb Paris;
- Rhoi dyletswydd ar yr holl weinidogion i wneud y newidiadau angenrheidiol i fodloni targedau;
- Sicrhau bod gweinidogion a staff yn deall ac yn cael eu harwain gan nod cyfrifoldeb byd-eang Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'u bod yn deall y ffaith bod yr hinsawdd yn effeithio yn fwy ar fenywod.

Nid yw targedau lleihau allyriadau Cymru 'yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r ymrwymiadau a wnaed o dan Gytundeb Paris (a) dylai fod yn fwy uchelgeisiol os yw Cymru o ddifrif am ei chyfrifoldebau byd-eang'

– Grwp Cyfeirio Arbenigol i Bwyllgor Newid yn yr Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Cynulliad

SWYDDI A CHYFLOG CYFARTAL AR GYFER MENYWOD

SGÔR: COCH

Mae menywod yn llai tebygol na dynion o fod mewn cyflogaeth o ansawdd da ac yn dal i ennill llai na dynion ar gyfartaledd. Menywod yw'r rhan fwyaf o'r staff ar y cyflogau isaf yn y rhan fwyaf o sefydliadau, ac mae menywod yn dal 6% yn unig o swyddi prif weithredwr yn y 100 o fusnesau uchaf yng Nghymru.[36] Yn ddiweddar daeth Adroddwr y Cenhedloedd Unedig ar Dlodi Eithafol i'r DU. Yng Nghymru canfu fod 25% o swyddi yn talu'n llai na'r isafswm cyflog, ac yn aml mae swyddi cyflog isel, rhan-amser neu ansicr yn cael eu llenwi'n anghymesur gan fenywod, oherwydd anawsterau o ran sicrhau cydbwysedd rhwng gwaith a chyfrifoldebau gofalu. [37]

Yn 2018 cyfartaledd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru oedd 13.5%, gostyngiad o 1.3% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol[38] - ond nid yw'r ystadegau hyn yn llwyddo i ddatgelu'r darlun cyfan. Er bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn gulach yng Nghymru nag yn Lloegr, mae hyn yn bennaf oherwydd bod enillion cyfartalog yr awr ar gyfer dynion llawn-amser yn is o lawer yng Nghymru.[39]

Gellir esbonio rhan o'r anghysondeb gan y ffaith bod menywod yn fwy tebygol o weithio mewn galwedigaethau megis gofalu, gwerthu, hamdden a galwedigaethau gwasanaeth eraill. Cadarnhaodd ymchwil ar gyfer Oxfam Cymru yn 2018[40] fod y sectorau gofal cartref a bwyd a diod yn cael eu nodweddu gan gyflogau isel, contractau anniogel, a chyfleoedd cyfyngedig i symud ymlaen.

Mae Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn gweithredu polisïau cydraddoldeb ac wedi ennill gwobrau amrywiaeth. Ac eto 8% oedd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer staff Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2017, ychydig yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.[41] Mae camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r bwlch gan gynnwys cynyddu mwy ar gyflogau staff ar raddau is, y mwyafrif ohonynt yn fenywod, a menter sy'n ceisio cyflawni Uwch Wasanaeth Sifil cytbwys o ran y rhywiau erbyn 2020.

Ond hyd yma mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud defnydd annigonol o'r ysgogiadau sydd ar gael iddo ar gyfer dylanwadu ar gamau gweithredu cadarnhaol gan y sector cyhoeddus ehangach neu gwmnïau preifat. Mae angen iddo ganolbwyntio'n fanylach ar wneud cyflog a chyfleoedd gwaith i fenywod yn fwy teg ar draws sectorau a rhanbarthau.

Ym mis Mawrth 2018 ymrwymodd y cyn Brif Weinidog Carwyn Jones i sicrhau y byddai'r Cynllun Gweithredu Economaidd newydd a'r Cynllun Cyflogadwyedd *'yn cyflawni ar y rhethreg mewn perthynas â rhyw'*. Hefyd, cafwyd croeso i sefydlu'r Comisiwn Gwaith Teg yn 2018, ar ffurf panel annibynnol bach o arbenigwyr, i wneud argymhellion ar sut i annog arferion cyflogaeth teg ledled Cymru, dysgu beth mae gwaith teg yn ei olygu i fusnesau a gweithwyr, a sut i wella. Er bod y ddau gynllun yn crybwyll anghydraddoldeb rhwng y rhywiau, nid ydynt yn cynnig atebion.

Mae **caffael cyhoeddus** (sydd yn werth mwy na £6 biliwn bob blwyddyn) yn cynnig cyfle amlwg i Lywodraeth Cymru ddylanwadu ar gwmnïau sy'n dymuno ymgeisio am gontractau. Fodd bynnag, gwelodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fod diffyg cyfatebiaeth rhwng deddfwriaeth ac arfer: *'Er enghraifft nid yw Datganiad y Polisi Caffael yn adlewyrchu'r Ddeddf ac nid yw'n glir i ba raddau mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru yn ymgorffori'r Ddeddf.'*[42]

Yn dilyn ymyriad y Comisiynydd, ym mis Medi 2017 cychwynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid bryd hynny, Mark Drakeford, adolygiad o'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru.[43] Blwyddyn ddiweddarach pwysleisiodd Mr Drakeford ei nod o ddefnyddio gwariant y caffael blynyddol o £6bn i gefnogi gwaith teg ac arferion cyflogaeth[44], ymhlith pethau eraill - ond mae angen i hyn gynnwys mesurau cryf i ddod â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau i ben a gwella amodau a rhagolygon menywod mewn cwmnïau sy'n ennill contractau cyhoeddus.

Mae rhai arwyddion yn dod i'r amlwg o ddealltwriaeth gynyddol y gall polisïau cymorth busnes y llywodraeth helpu i newid ymddygiad. Mae Contract Economaidd newydd, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2018, yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau sy'n ceisio cymorth gan Lywodraeth

Cymru dderbyn amodau sy'n cynnwys ymrwymiad i waith teg.. Fel gyda chaffael, dylai hyn gynnwys targedau i ddod â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau i ben a gwella rhagolygon menywod.

Hefyd i'w groesawu oedd cyhoeddiad Bwrdd Cyflenwi traws-Lywodraeth, i sicrhau bod egwyddorion y Cynllun Gweithredu Economaidd yn cael eu hymgorffori ar draws y Llywodraeth. Dylai'r cynnydd tuag at roi'r egwyddorion hyn ar waith mewn modd sy'n sensitif i rywedd ar draws adrannau gael ei fonitro'n agos ac yn dryloyw.

Gwahaniaethau tâl rhanbarthol ar gyfer menywod

Mae gwaith yn loteri cod post ar gyfer menywod yng Nghymru. Mae gwahaniaethau amlwg mewn tâl rhanbarthol ledled Cymru: mae cyflogau menywod yn gymaint â 25% yn llai na chyflogau dynion mewn rhai ardaloedd. Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn amrywio o 25% ar Ynys Môn i -0.5% yn sir gyfagos Gwynedd, a -8.5% ymhellach ar hyd yr arfordir yng Nghonwy.

Nid yw'n ofyn cyfreithiol ar awdurdodau lleol Cymru i adrodd ar eu bylchau cyflog rhwng y rhywiau o dan gyfraith y DU[45], fodd bynnag dylent fod yn cyhoeddi dadansoddiad mwy cynhwysfawr o gydraddoldeb rhwng y rhywiau o dan Ddyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru ac fel rhan o nod 'Cymru fwy cyfartal' Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fodd bynnag, dim ond naw o'r 22 o awdurdodau lleol sydd wedi cyhoeddi data eu bwlch cyflog rhwng y rhywiau hyd yma, ac ychydig yn unig o ganlyniadau a welwyd i'r diffyg gweithredu hwn.

Mae'r adroddiadau hynny yn datgelu gwahaniaethau nodedig: Bwlch cyflog canolrifol Cyngor Sir Penfro yw 23.30%, ac mae menywod yn 91% o'r chwartel sy'n ennill lleiaf o'i staff. Yng Nghyngor Dinas Casnewydd, yn y pegwn arall, mae menywod yn ennill 3% ar gyfartaledd yn fwy na dynion, tra bod 77% o'r chwartel sy'n ennill lleiaf yn fenywod.

Mae'n debygol bod yr anghysondebau hefyd yn dangos gwahaniaethau rhanbarthol sylweddol mewn cyfleoedd economaidd - gan wneud achos cryf i bolisïau i roi diwedd ar anghydraddoldebau rhwng y rhywiau ac anghydraddoldebau eraill fod yn rhan annatod o strategaethau a phenderfyniadau economaidd Llywodraeth Cymru.

Mae hefyd yn debygol bod deinameg fewnol a phrinder rhwymedigaethau cyfreithiol clir i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhwng y rhywiau yn amlwg mewn cynghorau. Mae menywod yn cyfrif am 73% o staff llywodraeth leol ond dim ond 14% o swyddi prif weithredwr. Mae'r diffyg hwn o ran rhywedd mewn swyddi prif weithredwr ynghyd ag anghydbwysedd ar lefel etholedig yn awgrymu y bydd mynd i'r afael â'r diffyg twf mewn cyfleoedd a chyflog sy'n wynebu staff benywaidd llywodraeth leol yn parhau i fod yn ddibwys oni bai bod Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth iddo.

'Gallai cydraddoldeb llawn rhwng y rhywiau ychwanegu £13.6bn at ragolygon GYG Cymru ar gyfer 2028. Gallai cyfateb perfformiad y rhanbarth sy'n perfformio orau ar hyn o bryd yn y DU ar fesurau cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn unig wel cynnydd o £4.4b i GYG Cymru'

– Adroddiad 'Cyflwr y Genedl', Chwarae Teg

Anfantais ddwbl

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru[46] gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â grwpiau gwarchodedig, ar draws ei pholisïau a'i harferion arfaethedig, y rhai hynny mae wedi penderfynu eu hadolygu, a'r heriau mae'n bwriadu eu gwneud. Mae wedi nodi diffyg tystiolaeth ar gyfer rhai nodweddion gwarchodedig penodol.[47]

Nid yw'r data sydd ar gael am gyflogaeth yn galonogol. Mae enillion cyfartalog yn amrywio yn ôl rhywedd, anabledd, ethnigrwydd a chrefydd neu gred.[48]

Mewn prentisiaethau, mae gwahanu rhwng y rhywiau yn parhau i fod yn gryf, mae menywod BAME yn cael eu tangynrychioli ac mae cynrychiolaeth o fenywod anabl yn arbennig o isel.

35.1% oedd y bwlch cyflogaeth anabledd ar gyfer menywod yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 ac roedd yn sylweddol uwch mewn rhai ardaloedd.[49]

Y bwlch cyflog anabledd yn y cyflog 1997-2014 yng Nghymru oedd 7% ar gyfer menywod.[50] Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â rhanddeiliaid ar gyfer gosod targed uchelgeisiol i gynyddu nifer y bobl anabl mewn gwaith a thrwy hynny ceisio lleihau'r bwlch cyflogaeth anabledd yng Nghymru. Yn Lloegr a'r Alban, mae'r llywodraethau yn anelu i haneru'r bwlch mewn 10 mlynedd.[51]

Mae menywod duon, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig yn dioddef: y gyfradd cyflogaeth ar gyfer menywod gwyn yng Nghymru yw 69.9%, ond dim ond 48.1% ar gyfer menywod BAME.[52]

Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Erbyn 2021, cyflwyno fframwaith ar gyfer monitro gwaith gweddus a theg ar gyfer menywod yng Nghymru, gan gynnwys dangosyddion lles cenedlaethol;
- Gosod sancsiwn ar awdurdodau lleol nad ydynt yn adrodd ar eu bwlch cyflog rhwng y rhywiau er mwyn helpu i fapio lle mae angen camau gweithredu ac i fonitro cynnydd, a gosod targedau i gau'r bylchau;
- Ei gwneud yn ofynnol yn gyfreithiol a gorfodi'r holl gyrff cyhoeddus a restrir yn adroddiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar ei bylchau cyflog rhwng y rhywiau, fel rhan o'u cyfraniad at nod cydraddoldeb y Ddeddf;[53]
- Datblygu strategaeth ar gyfer nodi a mynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth sy'n wynebu menywod BAME;
- Gosod targed ar gyfer nifer y menywod anabl mewn gwaith erbyn diwedd 2019;
- Monitro ac adrodd bob blwyddyn ar effeithiolrwydd y Cynlluniau Gweithredu Economaidd a Chyflogadwyedd a'r Contract Economaidd wrth gulhau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a goresgyn rhwystrau rhag cyflogaeth deg, gan gynnwys ar gyfer menywod sydd â nodweddion gwarchodedig.

'Nid yn unig mae profiadau cyflogaeth yng Nghymru yn ddibynnol ar rywedd ond hefyd yn ddibynnol ar ethnigrwydd. Mae menywod BAME yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith, cael trafferth dod o hyd i swydd, ac yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar.'

– H Turkmen, partner ymchwil Chwarae Teg

EFFAITH TRETHIANT A CHYLLIDEBAU AR FENYWOD

SGÔR: MELYN

Mae gan Lywodraeth Cymru yn bwerau cyfyngedig o ran codi trethi. Gall godi rhai trethi bach yn uniongyrchol, ond daw'r rhan fwyaf o'i refeniw o Drysorlys y DU, fel 'grant bloc' gyda'i ddosbarthiad ar draws cyfrifoldebau datganoledig yn cael ei bennu yng nghyllideb Cymru.

Ond mae'r cydbwysedd yn newid: bydd tua 20% o gyllideb Cymru yn cael ei godi o drethi datganoledig yn 2019-20. Pan fydd Treth Cyngor a godir yn lleol yn cael ei gynnwys, bydd tua £5 biliwn o wariant datganoledig a llywodraeth leol yng Nghymru yn cael ei ariannu gan drethi a reolir yng Nghymru.

Mae hwn yn amser da i Lywodraeth Cymru ddatblygu'r defnydd o ddulliau ar gyfer dadansoddi effaith penderfyniadau trethiant ar y rhywiau a mynd i'r afael â diffygion ym mhroses y gyllideb. Mae cyllidebu ar sail rhyw yn arf effeithiol sy'n dangos sut mae penderfyniadau yn effeithio ar bobl mewn ffordd wahanol, a thrwy hynny helpu llywodraethau i ddyrannu adnoddau yn fwy teg ac effeithlon a hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau.

Yn ei Fframwaith Polisi Treth[54] mae Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd *'yn defnyddio'r system trethi i hyrwyddo tegwch a thwf economaidd'* ac y dylai

trethi Cymru *'godi refeniw i ariannu gwasanaethau cyhoeddus mor deg â phosibl'*. Dylid cymhwyso'r dull hwn i'r holl benderfyniadau ynghylch trethiant a gwariant, nid ei phwerau datganoledig diweddar i osod rhai trethi newydd bach a threth incwm cyfyngedig Cymru yn unig.

Gall systemau treth a rheolau treth gael effaith wahanol ar fenywod a dynion. Gall trethiant niwtral o ran rhyw, fel y'i gelwir – a ymddengys i fod y dull o ddewis a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru - mewn gwirionedd danseilio diogelwch economaidd. Gall system dreth gynyddol fwriadol gael effaith gadarnhaol.

Mae system treth incwm y DU yn flaengar yn gyffredinol, h.y. wrth i bobl symud i grwpiau incwm uwch maen nhw'n talu cyfran gynyddol o incwm gros yr aelwyd mewn treth incwm. Mae'r gwrthwyneb yn wir am dreth gyngor, hyd yn oed ar ôl cynnwys gostyngiadau treth gyngor: mae pobl ar incwm isel yn talu cyfran uwch o incwm gwario eu haelwyd mewn treth gyngor na'r rhai sydd ag incwm uwch.[55] Gan fod mwy o fenywod yn y grwpiau incwm is[56] byddai treth gyngor mwy blaengar o fudd iddynt.

Mae lefelau Treth Gyngor wedi codi'n gynt yng Nghymru nag yn yr Alban neu Lloegr dros y degawd diwethaf[57], gan gynyddu'r baich ar aelwydydd ag incwm is, er bod hyn hefyd yn lleihau'r toriadau i wasanaethau lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i awdurdodau lleol gynnal y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor[58], sydd yn debygol o fod wedi elwa menywod mewn aelwydydd tlotach[59]. Gall gostyngiadau ar gyfer gofalwyr hefyd elwa mwy o fenywod.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud y Dreth Gyngor yn decach a gall osod polisi. Ond awdurdodau lleol sy'n gosod lefelau'r Dreth Gyngor, er bod hyn mewn ymateb i ddyraniadau cyllideb Cymru.

Mae cyllidebau yn ymwneud â gwneud dewisiadau gydag adnoddau cyfyngedig. Mae cyllidebu ar sail rhyw, neu gyllidebu sy'n sensitif i ryw, yn caniatáu llywodraethau i hyrwyddo cydraddoldeb drwy ystyried gwahanol effeithiau cyllideb ar y rhywiau yn ogystal â gosod nodau neu dargedau ar gyfer cydraddoldeb a dyrannu arian i gefnogi'r nodau hynny.

Cynhelir Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyllidebau Cymru bob blwyddyn ond mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu y dylai hyn ddigwydd ar ddiwedd proses y gyllideb i ddangos cydymffurfiaeth yn hytrach nag ar gam cynnar i lywio penderfyniadau. Mae'r dull hwn yn gweithredu fel rhwystr i waith traws-lywodraeth effeithiol ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau. Dull mwy rhagweithiol fyddai i amlinellu sut y defnyddir holl wariant Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cydraddoldeb.

Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Cyflwyno cyllidebu ar sail rhyw i helpu i benderfynu ar wariant;
- Defnyddio ei bwerau llunio polisi i gyflwyno system Dreth Gyngor flaengar;
- Cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyllidebau Cymru ar gam cynnar ym mhroses y gyllideb i lywio penderfyniadau;
- Datblygu dulliau ar gyfer dadansoddi effaith y dreth incwm newydd yng Nghymru a phenderfyniadau trethiant eraill ar fenywod yng Nghymru.

'Gyda'i bwerau i bennu cyfraddau treth incwm am y tro cyntaf, bydd Llywodraeth Cymru yn gallu dylanwadu'n uniongyrchol ar incymau ôl-dreth a lefelau o anghydraddoldeb yng Nghymru. [...] Efallai mai defnyddio pwerau presennol dros y Dreth Gyngor, sydd yn cymryd cyfran llawer fwy o incwm o'r cartrefi tlotaf, ddylai fod y flaenoriaeth gyntaf ar gyfer diwygio.'

– Guto Ifan, Canolfan Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd[60]

METHODOLEG

Ar gyfer pob maes polisi sy'n cael eu hystyried rydyn ni wedi edrych ar ddatganiadau, deddfwriaeth, polisïau ac arferion perthnasol Llywodraeth Cymru; wedi archwilio tystiolaeth gan arbenigwyr ym mhob maes; wedi dadansoddi ystadegau lle maen nhw ar gael; ac wedi eu hystyried yng nghyd-destun arfer gorau a dadansoddiad arbenigol yng Nghymru ac mewn mannau eraill. Hefyd rydym yn cynnal trafodaeth bord gron gydag arbenigwyr ym mhob un o'r meysydd ac rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am rannu eu gwybodaeth.

Rydym wedi sgorio deddfwriaeth, cynlluniau gweithredu, strategaethau a chamau gweithredu, sydd gyda'i gilydd wedi darparu sgôr cyffredinol ar gynnydd Llywodraeth Cymru rhwng 2016 a 2019.

Rydym wedi sgorio meysydd polisi gan ddefnyddio ystod goleuadau traffig (coch, melyn a gwyrdd), sy'n dangos bod ychydig iawn o gynnydd, rhywfaint o gynnydd, neu gynnydd sylweddol o ran cydraddoldeb ar gyfer menywod a merched yng Nghymru.

LLYFRYDDIAETH

1. Adran 77 (1) yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006
2. Cydraddoldeb ar gyfer Menywod a Merched yng Nghymru: Ein Maniffesto, 2018 http://www.wenwales.org.uk/wp-content/uploads/LR_11509-WEN-Manifesto-20pp-A4-English.pdf
3. Wrth eich gwaith: rhianta a chyflogaeth yng Nghymru, Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y Cynulliad Cenedlaethol, Gorffennaf 2018
4. Capasiti Gofal Plant yng Nghymru: Mapio'r cyflenwad gofal plant yn erbyn galw posibl, GSR, 31/10/2017
5. Chwarae Teg, Adolygiad Cyflym o Gydraddoldeb rhwng y Rhywiau 2018: Cam Un, Mehefin 2018
6. Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, yn seiliedig ar ffigurau 2015/16
7. Galwad am Dystiolaeth ar Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 http://www.audit.wales/system/files/publications/Call-For-Evidence-Women-2017-English.pdf
8. https://kareningalasmith.com/counting-dead-women/
9. Khan, Y. & Afzal, N., ADRODDIAD BLYNYDDOL YR YMGYNGHORWYR CENEDLAETHOL 2018: TRAIS YN ERBYN MENYWOD CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL: Trosi Fframwaith Cenedlaethol yn Atebion Cynaliadwy
10. Adroddiad i'r Grwp Gorchwyl a Gorffen i lywio datblygiadau Cyllid Cynaliadwy ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol VAWDASV yng Nghymru, Medi 2017 (Cymorth i Ferched Cymru 2017)
11. Cyflwr y Sector: Adeiladu gwasanaethau arbenigol cynaliadwy yng Nghymru, 2018 (Caerdydd: Cymorth i Ferched Cymru, 2018)
12. https://gov.wales/first-minister-takes-steps-transform-refuge-provision-and-sexual-violence-services-wales
13. http://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/Are_you_listening_and_am_I_being_heard_FINAL_July_2016.pdf
14. Yng Nghynhadledd Llafur Cymru https://www.welshlabour.wales/latest/2018/09/25/carwyn_jones_speech/
15. Confensiwn ar atal a mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a thrais domestig, https://www.coe.int/en/web/istanbul-convention/text-of-the-convention
16. Dylai mabwysiadu a chyflawni'r Confensiwn sicrhau bod pob asiantaeth 'yn cydnabod eu rhwymedigaethau ac yn cymryd cyfrifoldeb am fynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod a merched ac yn cymryd mesurau i warchod goroeswyr a dal y cyflawnwyr i gyfrif.'
17. https://www.coe.int/en/web/istanbul-convention/grevio
18. http://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/01/Online-Abuse-The-use-of-the-digital-world-to-perpetrate-VAWDASV.pdf/

19. TUC gyda phrosiect rhywiaeth dyddiol, Ychydig o dynnu coes o hyd? Aflonyddu rhywiol yn y Gweithle yn 2016
20. https://gov.wales/newsroom finance1/2017/58948814/?lang=en
21. Chimba, M., Jasmin Chowdhury, J. & Getz-Kikuchi, K. Goresgyn Rhwystrau a Gwella Creithiau MasnachuPobl, BAWSO, Tach 2012
22. 'Eisiau Tenant gyda Buddion' - 'Yr hysbyseb slebogaidd ar-lein yn dangos bod landlordiaid yn cynnig ystafelloedd i letywyr sy'n agored i niwed yn gyfnewid am ryw', 2017, Wales Online
23. Arolwg Shelter Cymru o denantiaid preifat a gynhaliwyd gan YouGov yn 2017
24. https://www.24housing.co.uk/news/sex-for-rent-landlords-risk-licences-in-wales/ & https://www.landlordtoday.co.uk/breaking-news/2018/5/welsh-government-to-clampdown-on-sex-for-rent-landlords?source=othernews
25. Senedd sy'n gweithio i Gymru: Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, Tachwedd 2017
26. Gall Llywodraeth Cymru, Aelodau Cynulliad, pwyllgorau'r Cynulliad neu Gomisiwn y Cynulliad gyflwyno deddfau yng Nghymru
27. Llythyr gan y Llywydd i RhCM Cymru 20 Chwefror 2019
28. Murphy, J., a Jones, K., (2018). Arolwg o Ymgeiswyr Llywodraeth Leol 2017. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 25/2018.
29. O 112 o benodiadau neu ailbenodiadau i fyrddau cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn 2015/16, roedd 47.2% yn fenywod, 3.9% o leiafrifoedd ethnig a 3.7% yn bobl anabl - Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2017
30. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (anaw 2) 4 TABL 1
31. https://gov.wales/topics/environmentcountryside/climatechange/?lang=enttps://gov.wales/topics/environmentcountryside/climatechange/?lang=en
32. 'Agenda 2030: Cymru a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy Byd-eang'
33. https://beta.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/planning-policy-wales-edition-10.pdf
34. https://www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2017/12/CCC-Building-a-low-carbon-economy-in-Wales-Setting-Welsh-climate-targets.pdf
35. Adroddiad blynyddol 2018 CCERA 'Cynnydd Llywodraeth Cymru ar liniaru newid yn yr hinsawdd' https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11567/cr-ld11567-e.pdf
36. Chwarae Teg, Adroddiad 'Cyflwr y Genedl', 2019
37. https://www.ohchr.org/EN/NewsEvents/Pages/DisplayNews.aspx?NewsID=23881&LangID=E
38. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
39. Comisiwn Cydraddoldeb a hawliau dynol, Ydy Cymru yn Decach?, Hydref 2018
40. https://oxfamapps.org/cymru/press_release/2018-09-decent-work-oxfam-cymru/
41. Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar Gydraddoldeb 2016-17
42. http://futuregenerations.wales/work/procurement/
43. https://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2018/reviewofnpsvwcommenceorder/?lang=en
44. https://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2018/reviewofnpsvwcommenceorder/?lang=en
45. Mae Rheoliadau 2017 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhan fwyaf o gyflogwyr yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys Comisiwn y Cynulliad, i adrodd, ond nid awdurdodau lleol yng Nghymru.
46. Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
47. https://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/previous-administration/2011/equalityact/?lang=en
48. A Yw Cymru yn Decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol 2018, EHRC
49. Cyngor ar Bopeth Cymru, 2018
50. EHRC, Adroddiad Ymchwil 107, Bwlch Cyflog Anabledd, Awst 2017 https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/research-report-107-the-disability-pay-gap-executive-summary.pdf
51. https://beta.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-09/employability-plan-progress-report-2018.pdf
52. H Turkmen, cyflwyniad yn seminar 'Cyflwr y Genedl' Chwarae Teg 28.1.2019
53. Dim ond lleiafrif o'r cyrff cyhoeddus rhestredig sydd wedi adrodd
54. https://beta.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-10/tax-policy-framework.pdf
55. Llywodraeth Cymru, Adroddiad Polisi Treth Cymru: Hydref 2017
56. http://blogs.cardiff.ac.uk/thinking-wales/2017/03/31/income-inequality-and-the-1-in-wales-an-analysis-of-taxpayer-data/
57. Llyfrgell Ty'r Cyffredin: Dangosydd Cymdeithasol 2649
58. Llywodraeth Cymru, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor - Adroddiad Blynyddol 2017-18
59. Effeithiau cynlluniau cymorth treth gyngor lleol, y Sefydliad ar gyfer Astudiaethau Cyllid, Ionawr 2019.
60. Anghydraddoldeb incwm a 1% yng Nghymru – dadansoddiad o ddata trethdalwr, blog Thinking Wales - Meddwl Cymru, Prifysgol Caerdydd, 31 Mawrth 2017

CYDNABYDDIAETHAU:

Hoffai Oxfam Cymru a RhCM Cymru gydnabod gyda diolch gyfraniadau Chwarae Teg, Anabledd Cymru, Gwasanaethau Diwygio Etholiadol Cymru, Cyfeillion y Ddaear, Canolfan Llywodraethiant Cymru, Cymorth i Ferched Cymru a Women Connect First i'r ymchwil hwn.

Ysgrifennwyd gan: Lila Haines

Am RhCM Cymru

Mae RhCM Cymru yn rhwydwaith aelodaeth o sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo hawliau menywod ym mhob agwedd ar fywyd Cymru. Mae'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru yn anelu at greu cymdeithas decach lle gall menywod fyw heb rywiaeth a gwasanaethu ar sail rhyw a mwynhau cydraddoldeb ym mhob agwedd ar eu bywydau bob dydd.

Oes gennych chi ddiddordeb mewn hyrwyddo hawliau menywod yng Nghymru? Ymunwch â ni heddiw yn rhad ac am ddim drwy ein gwefan a dod yn aelod.

www.wenwales.org.uk
Rhif elusen: 1145706
Rhif y cwmni: 07891533

Am Oxfam

Yn Oxfam, mae merched yn ganolog i bopeth a wnawn wrth i ni helpu i roi diwedd ar annhegwch tlodi i bawb, am byth.

www.oxfam.org.uk/cymru
Rhif elusen: 202918

Cyhoeddwyd gan: Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (RhCM) Cymru ac Oxfam Cymru

Dylech gyfeirio at yr adroddiad hwn fel: "RhCM Cymru ac Oxfam Cymru, Cerdyn Sgorio Ffeministaidd 2019, Olrhain camau gweithredu Llywodraeth Cymru i hyrwyddo hawliau menywod a chydraddoldeb rhwng y rhywiau

© Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru 2019 a
© Oxfam Cymru 2019